WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Gwella Blynyddol

# Cyngor Sir Ddinbych

Ionawr 2011



## Adroddiad Gwella Blynyddol gan Archwilydd Cyffredinol Cymru

Ysgrifennir yr adroddiad hwn gan Swyddfa Archwilio Cymru ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru. (Ceir eglurhad o swyddogaeth yr Archwilydd Cyffredinol yn Atodiad 1). Adroddiad newydd ydyw y mae'n ofynnol iddo ei gyhoeddi o ran pa mor dda y mae cynghorau Cymru yn gwella'u gwasanaethau. Gyda chymorth arolygwyr eraill fel Estyn (ar gyfer addysg) ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, rydym wedi llunio darlun o'r hyn y mae'r cyngor yn ceisio ei gyflawni; sut mae'n gwneud hynny; a'r hyn y mae angen i'r Awdurdod ei wneud i wella'r ffordd y mae'n gwella ei wasanaethau.

Mae'r Adroddiad Gwella Blynyddol hwn yn cyfleu'r darlun hwnnw a phob blwyddyn byddwn yn llunio adroddiad i roi gwybod i chi am y cynnydd y mae Cyngor Sir Ddinbych (y Cyngor) wedi'i wneud. Nid ydym wedi ymdrin â phob gwasanaeth y mae'r Cyngor yn ei ddarparu. Rydym wedi canolbwyntio ar nifer fach o bethau, yn arbennig y pethau hynny y mae'r Cyngor wedi dweud yw ei flaenoriaethau o ran gwella. Mae'r adroddiad yn adlewyrchu'r sefyllfa ar ddiwedd mis Hydref 2010 (oni nodir yn wahanol).

Rydym am gael eich barn ar y gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu yn eich ardal chi a chewch gyfle i gyflwyno sylwadau yn y dyfodol. Yn y cyfamser hoffem wybod a yw'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch ac a yw'n hawdd ei ddeall. Gallwch fynegi eich barn drwy anfon e-bost at info@wao.gov.uk neu drwy ysgrifennu atom yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd CF11 9LJ.

Cynhwysai tîm astudio Swyddfa Archwilio Cymru a’m cynorthwyodd i lunio’r adroddiad hwn Stephen Martin a Karen Lees o dan gyfarwyddyd Alan Morris.

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Swyddfa Archwilio Cymru ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru fel sy'n ofynnol gan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn asesu cydymffurfiaeth awdurdodau gwella yng Nghymru (cynghorau sir, cynghorau bwrdeistref sirol, awdurdodau parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub) â gofynion gwella Rhan 1 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a’i staff yn gweithio o dan adain Swyddfa Archwilio Cymru. Am ragor o wybodaeth am Swyddfa Archwilio Cymru, ysgrifennwch at yr Archwilydd Cyffredinol yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ.
Ffôn 029 2032 0500, e-bost: info@wao.gov.uk, neu ewch i'r wefan yn www.wao.gov.uk.

(h) Archwilydd Cyffredinol Cymru, 2011

Cewch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Rhaid i chi ei ailddefnyddio’n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

# Cynnwys


Pa fath o ardal yw Sir Ddinbych? 04

A yw Cyngor Sir Ddinbych yn cael ei reoli'n dda? 05

A yw Cyngor Sir Ddinbych yn gwybod beth mae angen iddo ei wneud i wella? 07

A yw Cyngor Sir Ddinbych yn gwasanaethu pobl yn dda? 08

A yw Cyngor Sir Ddinbych yn helpu pobl mewn angen? 09

A yw Cyngor Sir Ddinbych yn helpu pobl i ddatblygu? 12

A yw Cyngor Sir Ddinbych yn helpu i greu lle diogel, ffyniannus a phleserus i fyw? 14

Beth y dylai'r Cyngor ei wneud? 19


**Atodiadau**


Atodiad 1 - Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r adroddiad hwn 20

Atodiad 2 - Gwybodaeth ddefnyddiol am Sir Ddinbych a Chyngor Sir Ddinbych 22

Atodiad 3 - Asesiad Corfforaethol yr Archwilydd Cyffredinol 23

Atodiad 4 - Llythyr Blynyddol yr Archwilydd Penodedig at Aelodau Cyngor Sir Ddinbych 24

Atodiad 5 - Amcanion a chynlluniau gwella Cyngor Sir Ddinbych 26

Atodiad 6 - Cyfeiriadau 30

# Pa fath o ardal yw Sir Ddinbych?

## Gwybodaeth gefndirol

1 Mae'n ddefnyddiol deall pa fath o ardal yw Sir Ddinbych a rhai o'r heriau sy'n ei hwynebu. Rydym wedi cynnwys rhywfaint o wybodaeth gefndirol isod ac ar ddechrau sawl adran yn yr adroddiad hwn. Mae rhagor o wybodaeth am Sir Ddinbych a'r Cyngor yn Atodiad 2:

- Mae Sir Ddinbych yn sir amrywiol gyda chymysgedd o gymunedau trefol a gwledig. Mae ganddi boblogaeth o 97,732, ac mae dros 60 y cant o'r boblogaeth yn byw yn nhrefi glan môr y Rhyl a Phrestatyn[1]. Mae'r boblogaeth yn cynyddu tua un y cant bob blwyddyn, sef un o'r cyfraddau uchaf yng Nghymru. Mae cyfran y plant a phobl ifanc 0-25 oed yn Sir Ddinbych ymhlith yr isaf o'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru, tra bod ganddo un o'r cyfraddau uchaf o bobl 65 oed neu'n hŷn.
- Mae cyfran y bobl sy'n siarad Cymraeg yn Sir Ddinbych yn uwch na'r cyfartaledd. Ar y cyfan, gall 31.5 y cant o'r boblogaeth siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg o gymharu â 25.6 y cant ledled Cymru. Er mai dim ond 25 y cant o bobl yn ardaloedd arfordirol Sir Ddinbych sy'n siarad Cymraeg, mae dros 60 y cant yn siarad Cymraeg yn y cymunedau mwy gwledig.
- Mae'r rhan fwyaf o Sir Ddinbych yn fwy cefnog na chyfartaledd Cymru. Fodd bynnag, mae Gorllewin y Rhyl a De Orllewin y Rhyl ymhlith y 50 ward fwyaf difreintiedig yng Nghymru[2].
- Nid oes unrhyw safleoedd diwydiant trwm yn y sir er bod gan y rhan fwyaf o'r trefi barciau diwydiannol bach neu ystadau ar gyfer diwydiant ysgafn. Mae'r rhan fwyaf o economi'r ardal yn seiliedig ar amaethyddiaeth a thwristiaeth.

poblogaeth
97,732
/////////////

siaradwyr cymraeg
31.5%
/////////////

1 Poblogaeth yn ôl yr amcangyfrif canol blwyddyn diweddaraf (2009).
2 Mynegeion 2008.

# A yw Cyngor Sir Ddinbych yn cael ei reoli'n dda?

2 **Mae arweinyddiaeth dda yn ysgogi newid, sy'n golygu bod Cyngor Sir Ddinbych mewn sefyllfa dda i gyflawni gwell canlyniadau er gwaethaf gwendidau presennol mewn rhai trefniadau.** Dyma oedd casgliad cyffredinol adroddiad a luniwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru ym mis Gorffennaf 2010, sef yr *Asesiad Corfforaethol Rhagarweiniol*, sy'n cynnwys rhai manylion am drefniadaeth y Cyngor a sut y caiff ei reoli. Nodir ein canfyddiadau yn Atodiad 3. Os hoffech ddarllen yr *Adroddiad llawn ar Asesu Corfforaethol* mae ar gael ar wefan y Cyngor yn www.denbighshire.gov.uk neu ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru yn www.wao.gov.uk.

3 Canfu'r adroddiad ei fod yn debygol y bydd y Cyngor yn gwella pethau ar gyfer pobl sy'n byw yn Sir Ddinbych gan fod arweinyddiaeth dda bellach yn newid y ffordd y caiff y Cyngor ei reoli. Nododd yr adroddiad fod y Cyngor wedi gwella ers cyfnod cythryblus a oedd wedi cynnwys adroddiadau beirniadol gan Estyn a Swyddfa Archwilio Cymru yn 2007 a 2008 a phenodi Grŵp Cyfeirio Allanol a Bwrdd Adfer Addysg Annibynnol gan Lywodraeth y Cynulliad.

4 Negeseuon allweddol yr adroddiad oedd bod arweinyddiaeth y Cyngor yn dda ac yn gwneud gwahaniaeth. Mae'r Cyngor yn gwneud ei orau i weithio mewn partneriaeth ag eraill. Mae wedi gwella o ran datgan blaenoriaethau a pholisïau clir, ac mae'n newid y ffordd y mae'n cynllunio cynnydd a'r ffordd y mae'n cyflwyno adroddiadau ar y cynnydd hwnnw. Fodd bynnag, ceir gwendidau o ran y ffordd y mae'r Cyngor yn rheoli ei staff, ond mae'n gweithio i wella hyn. Mae'r Cyngor yn rheoli ei arian yn weddol dda, ond mae angen iddo wneud mwy i sicrhau ei fod yn cynllunio i wneud y defnydd gorau o'i arian a'r adeiladau a'r tir y mae'n berchen arnynt.

5 Ers llunio'r adroddiad hwnnw yn yr haf, bu rhai datblygiadau yn y Cyngor, ond mae'r casgliadau cyffredinol a nodwyd gennym yn y paragraffau uchod yn berthnasol o hyd. Ymhlith y datblygiadau mae'r canlynol:

- Gwahoddwyd trigolion, grwpiau cymunedol a phartneriaid i gymryd rhan yn y 'Ddadl Fawr' ynghylch ble y dylai'r Cyngor a gwasanaethau cyhoeddus eraill fod yn torri gwariant neu wasanaethau - neu ble y dylent fod yn canolbwyntio'u hymdrechion i sicrhau bod trigolion yn cael y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt.
- Mae'r Cyngor yn darparu ystod o wasanaethau a gweithgareddau drwy bartneriaethau gyda chynghorau a sefydliadau eraill. Yn ddiweddar, mae'r Cyngor wedi nodi'r egwyddorion ar gyfer sut y dylai weithio yn y dyfodol gyda chynghorau a sefydliadau eraill yn y 'Datganiad ar Gydweithio'. Nod y Cyngor yw cydweithio mewn achosion lle y byddai'n helpu i gyflawni gwelliant. Mae'n arwain gwaith i ddatblygu Gwasanaeth Gwella Ysgolion ar gyfer gogledd Cymru gyfan. Mae'r Cyngor yn gweithio gyda Chyngor Sir Conwy i gysoni eu trefniadau cynllunio ac adolygu gwasanaethau, ac i ddefnyddio dull cydweithredol o ran rheoli perfformiad a threfniadau eraill. Mae gan hyn y potensial i'w gwneud yn haws i gydweithio.
- Mae gan y Cyngor 'Rhaglen Newid' sydd â'r nod o wella effeithlonrwydd ei wasanaethau mewnol megis Adnoddau Dynol a gwasanaethau cyfreithiol. Diweddarwyd y Rhaglen Newid hon a dylid bod wedi cwblhau'r adolygiadau gwasanaeth erbyn mis Mawrth 2011. Drwy'r gwaith hwn, mae'r Cyngor yn bwriadu lleihau costau gwasanaethau cymorth 20 y cant. Mae uwch swyddogion a chynghorwyr wedi cyflawni

'Adolygiadau Perfformiad Gwasanaethau' mewn sawl maes gwasanaeth i helpu i ddatblygu gwell dealltwriaeth o ba mor dda y maent yn perfformio, a sut y gallant barhau i wella.

6 Ers i ni lunio'r adroddiad Asesu Corfforaethol mae'r pwysau wedi cynyddu ar bob gwasanaeth cyhoeddus i wneud y defnydd gorau posibl o'i holl adnoddau. Arian refeniw yw'r arian a werir gan gynghorau ar redeg a rheoli eu gwasanaethau. Bydd y Cyngor yn gweld gostyngiad o tua £2.3 miliwn (1.6 y cant) yn yr arian refeniw a gaiff gan Lywodraeth y Cynulliad ar gyfer 2011-12. Ar ôl caniatáu ar gyfer chwyddiant, mae hyn yn golygu lleihad mewn termau real o tua £4.9 miliwn (3.5 y cant). Mae ffigurau Dangosol Llywodraeth y Cynulliad yn dangos gostyngiadau mewn termau real yn arian refeniw'r Cyngor ar gyfer 2012-13 a 2013-14.

7 Mae'r Cyngor wedi bod yn ymwybodol ers peth amser bod angen iddo gwtogi ar yr hyn y mae'n ei wneud a sicrhau ei fod yn defnyddio'r adnoddau sydd ganddo mor effeithiol â phosibl. Mae'n datblygu rhaglen weithredu i sicrhau arbedion a gwella effeithlonrwydd. Ar ôl ystyried effaith chwyddiant, pwysau ar y gwasanaethau a'r angen i fenthyca er mwyn ariannu cynlluniau cyfalaf, mae'r Cyngor yn anelu at sicrhau arbedion o hyd at £6 miliwn yn ystod 2011-12 ac arbedion pellach o hyd at £5 miliwn ar gyfer pob un o'r dair blynedd nesaf.

8 Arian cyfalaf yw'r arian a werir gan gynghorau ar seilwaith, er enghraifft adeiladau a chyfarpar newydd. Bydd disgwyl i'r arian cyfalaf sydd ar gael i'r Cyngor leihau'n sylweddol. Gan fod cynghorau'n gwneud ceisiadau am arian cyfalaf, nid yw'n bosibl bod yn gwbl sicr faint y bydd pob cyngor yn ei gael. Bydd lleihad o 14 y cant yng nghyfanswm yr arian cyfalaf sydd ar gael i gynghorau ledled Cymru yn 2011-12 (sef toriad o 18.5 y cant mewn termau real). Nid oes unrhyw ffigurau swyddogol ar gael ar gyfer gwariant cyfalaf llywodraeth leol y tu hwnt i 2011-12 ond mae'n debygol o fod yn unol â lleihad cyffredinol yng ngwariant cyfalaf Llywodraeth y Cynulliad, a fydd yn lleihau tua 34 y cant (sef tua 40 mewn termau real) rhwng 2010-11 a 2013-14.

9 Mae'r Cyngor wedi paratoi cynlluniau i ymateb i'r 'meysydd datblygu' a nodwyd yn ein Hasesiad Corfforaethol Rhagarweiniol a hefyd i ymateb i'r argymhellion a wnaed gan Adolygiad Cymheiriaid o ran sut y mae'r Cyngor yn defnyddio ei adnoddau. Cyflawnwyd yr adolygiad hwnnw gan dîm o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Mae'r archwilydd ariannol a benodwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol wedi rhoi barn archwilio ddiamod ar y datganiadau cyfrifyddu, gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o drafodion ariannol y Cyngor. Mae ei Lythyr Archwilio Blynyddol, sy'n rhoi gwybodaeth am y cyfrifon, y defnydd o adnoddau a Chynllun Gwella'r Cyngor wedi'i gynnwys yn yr adroddiad hwn fel Atodiad 4.

10 Ceir rhagor o wybodaeth am yr hawl i weld cyfrifon y cyngor yn nhaflen Swyddfa Archwilio Cymru, *Cyfrifon y Cyngor: eich hawliau*, sydd ar gael ar ein gwefan yn www.wao.gov.uk.

# A yw Cyngor Sir Ddinbych yn gwybod beth mae angen iddo ei wneud i wella?

11 **Mae gan y Cyngor gyfres glir o flaenoriaethau a chynlluniau i gyflawni ei nod cyffredinol o wella a bod yn 'Gyngor sy'n Perfformio'n Dda sy'n Agosach at y Gymuned'. Mae'r rhain yn bodloni gofynion Llywodraeth y Cynulliad.**

12 Mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei gwneud yn ofynnol i bob cyngor gyhoeddi cynlluniau ar gyfer gwella gwasanaethau. Mae'n rhaid i Gynghorau hefyd gyhoeddi rhestr o'r prif flaenoriaethau y maent yn bwriadu eu gwella bob blwyddyn.

13 Cyhoeddodd y Cyngor ei Gynllun Corfforaethol ar gyfer 2009-12 ym mis Gorffennaf 2009 gan nodi'r prif feysydd lle y mae am wella a sut y mae'n bwriadu bod yn 'Gyngor sy'n Perfformio'n Dda sy'n Agosach at y Gymuned'. Mae'r cynllun yn nodi pedair blaenoriaeth gyffredinol y Cyngor, sef:

- addasu'r gwasanaethau a ddarperir i fynd i'r afael â newidiadau demograffig (hynny yw, newid gwasanaethau i ddiwallu anghenion cyfnewidiol y boblogaeth);
- lleihau amddifadedd a datblygu economi Sir Ddinbych mewn modd cynaliadwy drwy dargedu adnoddau yn strategol (hynny yw, gwneud yr ardal yn fwy ffyniannus drwy ddefnyddio adnoddau'r cyngor mewn ffordd a dargedwyd);
- moderneiddio'r gwasanaeth addysg i gyflawni lefel uchel o berfformiad ar draws y sir; a
- sicrhau rhwydwaith ffyrdd ac amddiffynfeydd llifogydd cynaliadwy.

14 Mae'r Cynllun Corfforaethol hefyd yn cynnwys pedair 'thema wella' sy'n dangos sut y mae'r Cyngor am wella'r ffordd y caiff ei redeg. Mae'r rhain bellach wedi'u dwyn ynghyd fel pumed flaenoriaeth, sef 'gwella'r ffordd y mae'r Cyngor yn gweithio'.

15 Ym mis Mai 2010 cyhoeddodd y Cyngor gynllun diwygiedig sef 'Cyflawni Cynllun Corfforaethol 2010-2011' sy'n nodi'r hyn y mae'n bwriadu ei wneud eleni.

16 Mae'r cynlluniau a'r blaenoriaethau yn bodloni gofynion Llywodraeth y Cynulliad ac yn dilyn y canllawiau a gyhoeddwyd. Mae'r blaenoriaethau yn mynd i'r afael â meysydd pryder perthnasol ar gyfer y sir, mae'r cynlluniau wedi'u hysgrifennu'n dda, ac yn y rhan fwyaf o achosion bydd y Cyngor yn gallu mesur gwelliant. Gallai'r Cyngor fod wedi gwneud mwy i gynnwys pobl eraill o ran llunio'r blaenoriaethau, ac mewn nifer fach o achosion mae angen iddo wneud mwy i allu dangos sut y bydd pobl ar eu hennill o ganlyniad i waith y Cyngor. Ceir manylion pellach am y cynlluniau a'r polisïau yn Atodiad 5.

# A yw Cyngor Sir Ddinbych yn gwasanaethu pobl yn dda?

17 Drwy Asesiad Gwella blynyddol yr Archwilydd Cyffredinol yn raddol byddwn yn creu darlun o ba mor dda y mae'r Cyngor yn gwasanaethu pobl leol. Bob blwyddyn byddwn yn edrych ar wasanaethau'r Cyngor a'u cynnydd yn erbyn rhai o'i amcanion gwella mewn perthynas â thair agwedd bwysig ar fywyd yn Sir Ddinbych sy'n cwmpasu'r rhan fwyaf o wasanaethau a ddarperir gan gynghorau ar gyfer dinasyddion. Mae'r agweddau fel a ganlyn:

- helpu i gefnogi pobl mewn angen;
- helpu pobl i ddatblygu; a
- helpu i greu lle diogel, ffyniannus a phleserus i fyw.

18 Gan fod 'gwella'r ffordd y mae'r Cyngor yn gweithio' yn un o'i bum amcan gwella yn Sir Ddinbych, rydym hefyd wedi ystyried ei berfformiad o dan y thema honno.

19 Rydym wedi cynnal adolygiad cychwynnol o bob un o amcanion gwella'r Cyngor a byddwn yn eu hystyried yn fanylach y flwyddyn nesaf. Rydym yn rhoi ein barn ar gynnydd o ran pob amcan yn y sesiwn ganlynol.

# A yw Cyngor Sir Ddinbych yn helpu pobl mewn angen?

## A yw'r Cyngor yn helpu pobl mewn angen drwy addasu'r ddarpariaeth o wasanaethau i fynd i'r afael ag effaith y boblogaeth sy'n newid?

20 **Mae mwy o bobl yn gallu byw'n annibynnol gartref wrth i wasanaethau wella ar gyfer y nifer cynyddol o bobl hŷn a phobl sydd ag anawsterau dysgu. Fodd bynnag, nid yw'n glir p'un a yw hyn yn ddigonol i ddiwallu anghenion trigolion.**

21 Mae poblogaeth Sir Ddinbych yn cynyddu ac mae nifer y bobl sydd angen cymorth gan wasanaethau cymdeithasol hefyd yn cynyddu. Un o flaenoriaethau'r Cyngor yw mynd i'r afael ag effaith y newid yn y boblogaeth ar wasanaethau a chymunedau. Mae'r Cyngor wedi canolbwyntio'r gwaith hwn ar wella gwasanaethau ar gyfer y nifer cynyddol o bobl hŷn â'r rheini sydd ag anableddau cymhleth ac anableddau dysgu.

22 Mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd da o ran gwneud y rhan fwyaf o'r hyn yr oedd yn bwriadu ei wneud i gefnogi pobl hŷn. Mae'n gwella ei ystod o wasanaethau yn cynnwys cymorth ailalluogi, tai gofal ychwanegol a mentrau ansawdd bywyd eraill. Mae'r dangosyddion perfformiad cenedlaethol yn dangos fod perfformiad gwasanaethau'r Cyngor wedi gwella ar y cyfan ar gyfer pobl hŷn. Er enghraifft ceir mwy o ran nifer (a chyfran uwch) o bobl hŷn sy'n cael cymorth i fyw gartref ac felly nid oes rhaid i gymaint ohonynt fyw mewn cartrefi gofal. Mae'r cyfraddau'n isel o ran pobl sydd yn yr ysbyty lle ceir oedi o ran eu rhyddhau. Mae'r cymorth a ddarperir i bobl drwy dechnoleg gynorthwyol electronig wedi gwella. Fodd bynnag, er bod yr amser a gymerir i gyflawni gwaith addasu drwy Grant Cyfleusterau i'r Anabl wedi gwella, mae'n dal i gymryd dros flwyddyn ac mae'n is na chyfartaledd Cymru.

23 Er y gwnaed cynnydd rhesymol o ran y cynlluniau presennol, nid yw'n glir a fydd y Cyngor yn gallu darparu'r gwasanaethau hyn i bob trigolyn sydd eu hangen yn y dyfodol wrth i nifer y bobl hŷn yn y Sir gynyddu ymhellach. Mae hon yn ystyriaeth bwysig i'r Cyngor.

24 Yn ystod y flwyddyn flaenorol, gwnaeth y Cyngor ragori ar ei dargedau ar gyfer cefnogi pobl ag anableddau dysgu yn y gymuned. Mae hefyd wedi datblygu prosiect peilot ar gyfer cyllidebau unigol a chefnogaeth a hunangyfeirir ar gyfer pobl ag anableddau dysgu. Ni lwyddodd i gyrraedd ei dargedau ar gyfer lleihau'r gefnogaeth i bobl sydd ag anawsterau dysgu mewn cartrefi gofal, gan fod y galw am gymorth yn uwch nag a ragwelwyd. Mae cynlluniau'r Cyngor i ddatblygu trefniadau 'Byw'n Annibynnol â Chymorth Dwys' wedi'u gohirio ac yn cael eu datblygu ar raddfa lai am nad yw wedi gallu sicrhau ymrwymiad llawn gan y bwrdd iechyd lleol. Gyda chynnydd parhaus yn nifer y bobl hŷn a'r bobl ag anableddau dysgu sy'n cael eu hatgyfeirio, gesyd hyn fwy o bwysau ar adnoddau cyfyngedig.

## A yw'r Cyngor yn helpu pobl mewn angen drwy wasanaethau gofal cymdeithasol?

25 Rôl Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yw cyflawni asesiadau proffesiynol a llunio barn broffesiynol ynghylch gofal cymdeithasol, gwasanaethau blynyddoedd cynnar a gwasanaethau cymdeithasol ac annog darparwyr y gwasanaethau i wella. Mae'n gweithio ar ran Gweinidogion Cymru, ond mae nifer o fesurau diogelu ar waith i sicrhau ei hannibyniaeth. O dan ddeddfwriaeth newydd ceir fframwaith newydd ar gyfer gwaith arolygu, gwerthuso ac adolygu gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol.

26 Mae'n ofynnol i Gyfarwyddwyr gwasanaethau cymdeithasol lunio adroddiad hunanasesu blynyddol ar ba mor dda y mae gwasanaethau'n cael eu darparu. Yna bydd AGGCC yn mynd ati i adolygu a dadansoddi tystiolaeth sy'n sail i'r adroddiad, gan gynnwys tystiolaeth a roddir gan reoleiddwyr ac arolygwyr eraill. Yn dilyn y gwaith dadansoddi hwn ceir cynllun arolygu ac adolygu unigol ar gyfer pob cyngor. Caiff dadansoddiad AGGCC, ynghyd â'r cynllun arolygu ac adolygu, eu cyflwyno bob blwyddyn mewn llythyr a gyhoeddir.

27 2009-10 yw blwyddyn lawn gyntaf y fframwaith newydd, a’r nod yw pennu llinell sylfaen yn seiliedig ar berfformiad cyfredol. Mae llythyr AGGCC ar gael ar eu gwefan, www.aggcc.org.uk. Ceir crynodeb o negeseuon allweddol y llythyr a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2010 isod.

28 Ar gyfer oedolion, mae'r Cyngor wedi datblygu amrywiaeth o wasanaethau i gefnogi annibyniaeth ac mae wedi cynyddu cyfran yr oedolion hyn mae'n eu cefnogi yn y gymuned. Mae nifer gynyddol o ofalwyr yn cael cymorth. Canfu arolygiad AGGCC o drefniadau diogelu oedolion bod systemau priodol ac effeithiol ar waith.

29 Mae angen i'r Cyngor wneud mwy i ddatblygu gwasanaethau i oedolion ifanc â demensia a darparu ystod ehangach o fodelau cymorth sy'n seiliedig yn y gymuned ar gyfer pobl ag anableddau dysgu, gan gynnwys dilyn y cam pontio o wasanaethau plant. Mae dulliau newydd yn cael eu cyflwyno ar gyfer cryfhau mesurau sicrhau ansawdd mewn perthynas â gwasanaethau a gomisiynir. Bydd angen i'r Cyngor hefyd wella ansawdd ac amseroldeb adolygiadau. Mae angen i'r Cyngor fod yn fwy effeithiol o ran helpu defnyddwyr i gael taliadau uniongyrchol fel y gallant reoli eu cymorth gofal eu hunain ble y dymunant.

30 Ar gyfer plant, canfu arolygiad AGGCC o gamau diogelu ym mis Hydref 2009 yr ymatebir i honiadau yn effeithiol ac y gwneir penderfyniadau'n amserol. Cynhelir adolygiadau amddiffyn plant o fewn yr amserlenni gofynnol, ond mae angen gwella ymhellach ganran y cynadleddau amddiffyn plant cychwynnol a gynhelir o fewn amserlenni. Mae'r Cyngor wedi bod yn effeithiol o ran cynyddu nifer y gofalwyr maeth mewnol ac mae wedi llwyddo i leihau canran y plant sy'n gorfod newid ysgol heb ei gynllunio. Mae'r Cyngor yn bodloni'r disgwyliad y caiff pob plentyn ar y Gofrestr Amddiffyn Plant a phob plentyn sy'n derbyn gofal weithiwr cymdeithasol cymwys.

31 Fodd bynnag, mae angen i'r Cyngor wella amseroldeb asesiadau plant a sicrhau y cynhelir ymweliadau statudol ar amser. Mae asesu ymhellach effeithiolrwydd gwasanaethau therapiwtig a chefnogol yn ogystal â gwella'r trefniadau pontio o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion ac wrth adael gofal yn feysydd y mae angen eu datblygu ymhellach.

32 Yn gyffredinol, mae'r Cyngor wedi nodi blaenoriaethau ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yn glir, mae'n datblygu gwaith ar y cyd gyda chynghorau a phartneriaid eraill ac mae'n defnyddio dulliau cyfathrebu arloesol i ymgysylltu â'r cyhoedd. Mae strategaethau comisiynu a strategaeth datblygu gweithlu ar waith.

## A yw'r Cyngor yn helpu pobl mewn angen mewn ffyrdd eraill?

33 **Mae gwasanaethau refeniw a budd-daliadau'r Cyngor a'r rhan fwyaf o'r agweddau ar y gwasanaeth tai yn helpu pobl mewn angen yn effeithiol. Fodd bynnag, mae angen i'r Cyngor a'i bartneriaid wneud mwy i wella cymorth tai ar gyfer pobl sydd ag anghenion iechyd meddwl. Mae gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid yn well na'r cyfartaledd.**

34 Mae'r Cyngor yn helpu pobl sy'n hawlio budd-daliadau mewn ffordd foddhaol. Canfu adolygiad gan Swyddfa Archwilio Cymru (ar ran yr Adran Gwaith a Phensiynau) fod perfformiad y Cyngor yn erbyn dangosyddion cenedlaethol yn chwarter uchaf cynghorau Cymru. Dyfarnwyd y safon Rhagoriaeth mewn Gwasanaethau Cwsmeriaid, sef y Nod Siarter gynt, i dimau Refeniw a Budd-daliadau'r Cyngor am y trydydd tro.

35 Mae'r rhan fwyaf o'r agweddau ar wasanaethau tai yn cefnogi pobl mewn angen yn effeithiol. Y Cyngor yw un o'r cynghorau prin yng Nghymru sydd wedi cynnal ansawdd ei stoc tai. Daeth ein hadolygiad yn 2009 i'r casgliad bod gwaith yn cael ei gynllunio, ei reoli a'i gydgysylltu'n effeithiol mewn ffordd sy'n debygol o sicrhau bod y rhan fwyaf o gartrefi a reolir gan y Cyngor yn cyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru erbyn diwedd 2012. Gwnaed rhywfaint o gynnydd o ran lleihau ôl-groniad o waith atgyweirio i'r cartrefi, ac mae'r amser a gymerir i osod eiddo gwag yn well na'r cyfartaledd.

36 Atelir digartrefedd ar gyfer canran uchel o'r sawl sy'n gofyn am help. Mae'r broses o ddarparu gwasanaethau digartrefedd yn Sir Ddinbych yn cael ei chynllunio, ei rheoli a'i chydgysylltu'n effeithiol o hyd, ond mae'r posibilrwydd o leihad yn y gyllideb o 2011 yn cyflwyno heriau. Mae'r defnydd o lety gwely a brecwast ar gyfer pobl ddigartref yn anfoddhaol ac yn ddrud, felly roedd yn beth da yn ystod 2009-10, fod y Cyngor ond yn defnyddio llety gwely a brecwast mewn argyfyngau, ac nid ar gyfer teuluoedd â phlant. Roedd lefelau cyffredinol y defnydd o lety gwely a brecwast yn is yn Sir Ddinbych nag yn y rhan fwyaf o gynghorau.

37 Fodd bynnag, nododd astudiaeth genedlaethol gan Swyddfa Archwilio Cymru, *Gwasanaethau tai i oedolion ag anghenion iechyd meddwl*, Tachwedd 2010, fod pryderon ledled Gogledd Cymru mewn ymateb i anghenion tai oedolion sydd â phroblemau iechyd meddwl. Canfu'r adroddiad fod angen i sefydliadau, yn enwedig sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol, gydweithio'n well i helpu pobl i gael gafael ar wasanaethau. Canfu hefyd fod wyth awdurdod lleol, yn cynnwys Sir Ddinbych, yn gweithredu cynlluniau a allai, mewn rhai amgylchiadau, atal rhai pobl sy'n agored i niwed sydd ag anghenion iechyd meddwl rhag gallu cael tai parhaol. Mae arfer o'r fath yn groes i ganllawiau Llywodraeth y Cynulliad. Mae'r Cyngor yn paratoi polisi diwygiedig.

38 Mae ansawdd y gwasanaeth troseddau ieuenctid ar gyfer Sir Ddinbych a Chonwy yn well na chyfartaledd Cymru. Yn ôl Arolygiad Cyfiawnder Troseddol ar y Cyd diweddar, mewn dwy ran o dair o achosion, roedd y gwasanaeth yn lleihau'r risg y bydd plentyn neu berson ifanc yn cael niwed, a'r risg o niwed i aelodau eraill o'r cyhoedd yn effeithiol. Roedd y gwasanaeth yn gweithio'n dda i leihau cyfraddau aildroseddu yn ymron tri chwarter yr achosion. Hefyd canfu'r arolygiad fod y gwasanaeth yn dilyn ei weithdrefnau'n briodol yn y rhan fwyaf o achosion. Yn olaf, nododd yr arolygiad bod angen gwella ansawdd, cywirdeb a gwaith arolygu gan reolwyr mewn perthynas ag asesiadau o bobl sy'n agored i niwed.

# A yw Cyngor Sir Ddinbych yn helpu pobl i ddatblygu?

## Gwybodaeth gefndirol

39 Yn Sir Ddinbych ceir 53 ysgol gynradd, wyth ysgol uwchradd, dwy ysgol arbennig ac unedau arbennig mewn pum ysgol gynradd. Gyda'i gilydd, mae'r ysgolion hyn yn gwasanaethu poblogaeth o ychydig yn llai na 16,000 o ddisgyblion.

40 Mae cyfran y disgyblion o oedran ysgol statudol sydd â'r hawl i ginio ysgol am ddim yn Sir Ddinbych wedi cynyddu dros y pedair blynedd diwethaf, ond mae'n parhau i fod yn is na chyfartaledd Cymru.

41 Mae maint yr ysgolion cynradd yn amrywio'n fawr. Mae gan ychydig dros chwarter ohonynt, sydd wedi'u lleoli'n bennaf yn ardaloedd arfordirol y Rhyl a Phrestatyn, dros 200 o ddisgyblion. Mae 60 y cant o'r holl ddisgyblion cynradd yn mynychu'r ysgolion mwy o faint hyn. I'r gwrthwyneb, mae gan bron hanner yr ysgolion cynradd lai na 100 o ddisgyblion, yn cynnwys 13 ysgol gynradd sydd â llai na 50 o ddisgyblion.

42 mae nifer y disgyblion mewn ysgolion uwchradd yn amrywio o 354 i 1,788. Mae gan ddwy o'r wyth ysgol uwchradd lai na 500 o ddisgyblion. Mae 275 o ddisgyblion yn y ddwy ysgol arbennig.

43 Mae canran yr oedolion o oedran gweithio sydd heb unrhyw gymwysterau ychydig yn is na chyfartaledd Cymru ac mae wedi lleihau'n raddol yn Sir Ddinbych ers 2001. Y canran yn 2008 oedd 14.3 y cant, sydd ychydig yn is na chyfartaledd Cymru sef 14.6 y cant.

## A yw'r Cyngor yn moderneiddio'r gwasanaeth addysg i gyflawni lefel uchel o berfformiad ar draws y sir?

44 **Mae'r Cyngor yn darparu gwell gwasanaeth addysg ac yn helpu ysgolion a phlant i gael canlyniadau gwell. Fodd bynnag, nid yw'n cefnogi ysgolion eto i gyflawni'r lefel perfformiad disgwyliedig ar gyfer llawer o ddisgyblion.**

45 Mae Estyn, sef arolygydd addysg a hyfforddiant Cymru, yn edrych ar ba mor dda y mae cynghorau yn helpu plant a phobl ifanc i feithrin gwybodaeth a sgiliau. Mae'n arolygu ysgolion, colegau addysg bellach a sefydliadau hyfforddi ac yn llunio barn ar ba mor dda y mae cynghorau yn cefnogi'r darparwyr addysg hyn. Mae Estyn, drwy ei dimau rhanbarthol, yn dadansoddi gwybodaeth am berfformiad, yn ymweld ag ysgolion ac yn cyfarfod yn rheolaidd â chyfarwyddwyr addysg er mwyn llunio barn ar rôl y Cyngor a pherfformiad ym maes addysg yn yr ardal.

46 Gwnaed 'moderneiddio addysg' yn flaenoriaeth gorfforaethol i'r Cyngor ar ôl arolygiad beirniadol gan Estyn yn 2007. Yn sgîl yr arolygiad sefydlwyd Bwrdd Adfer Addysg Annibynnol Sir Ddinbych gan Weinidog Llywodraeth y Cynulliad dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes i gefnogi a monitro cynnydd.

47 Canfu ail-arolygiad gan Estyn ym mis Mawrth 2009 fod cynnydd a chyflymder y gwelliant yn dda, ond roedd heriau i'w hwynebu o hyd. Yn dilyn adborth cadarnhaol pellach gan Estyn ar ddechrau 2010, diddymwyd y Bwrdd Adfer Addysg Annibynnol. Nododd ei adroddiad terfynol: Rheolwyd camau cynnar y rhaglen moderneiddio addysg yn

effeithiol. Dylai'r fframwaith polisi y cytunwyd arno ddarparu sail gadarn ar gyfer diwygio'r ddarpariaeth addysg yn y sir dros y tymor hwy. Fodd bynnag, bydd trosi'r polisïau hyn yn gynigion pendant yn peri her sylweddol a bydd yn dibynnu ar yr arian sydd ar gael yn ogystal â sgiliau arwain a rheoli cadarn.

48 Mae'r gyllideb a rydd y Cyngor i addysg yn gyson â'r flaenoriaeth a rydd i foderneiddio addysg. O ran y gyllideb addysg net fesul disgybl, mae'r Cyngor wedi cynyddu ei wariant o flwyddyn i flwyddyn o'r trydydd safle isaf yng Nghymru yn 2004-05 i'r wythfed safle uchaf yn 2010-11.

49 Y 'dangosydd pynciau craidd' yw cyfran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig mewn ystod o bynciau[3]. Asesir plant yn 7, 11, 14 ac 16 oed. Yn Sir Ddinbych, mae cyfran y plant sy'n cyflawni'r lefel hon wedi cynyddu ar gyfer pob oedran ers 2007. Fodd bynnag, mae perfformiad yn parhau i fod yn agos i gyfartaledd Cymru, neu'n is na'r cyfartaledd. Mae cyrhaeddiad disgyblion 16 mlwydd oed yn Sir Ddinbych yn is na'r lefelau disgwyliedig ar gyfer grwpiau tebyg o ddisgyblion. Mae angen i'r Cyngor wneud mwy i gefnogi gwelliant yn effeithiol yn yr ysgolion ble mae perfformiad islaw'r lefelau disgwyliedig.

50 Ym mis Gorffennaf 2010, cytunodd y Cyngor i barhau i weithio gyda chynghorau eraill i ddatblygu Gwasanaeth Gwella Ysgolion Rhanbarthol Gogledd Cymru. Nod y cydweithio hwn yw helpu'r cynghorau i ddarparu ystod well a mwy cyson o gymorth a her i ysgolion gan leihau costau rheoli a gweinyddol ar yr un pryd. Y nod o ran yr amserlen yw gweithredu'r gwasanaeth rhanbarthol yn llawn o fis Medi 2012.

51 Heblaw am y datblygiadau i wella cyrhaeddiad mae'r Cyngor hefyd wedi gwneud cynnydd o ran moderneiddio ysgolion, hyrwyddo cynhwysiant a gwella ei wasanaethau cymorth i ysgolion:

- Yn dilyn mabwysiadu'r fframwaith polisi 'Moderneiddio Addysg' ym mis Ionawr 2009, cychwynnwyd tri adolygiad ardal, dau yn nyffryn Dyfrdwy ac un ym Mhrestatyn. Fodd bynnag, nid yw'n glir sut y mae'r cynnydd hwn yn cymharu â'r hyn a fwriedir neu'r hyn sydd ei angen.
- Yn ystod 2009-10 paratowyd Cynllun Addysg Gymraeg drafft gan y Cyngor a gymeradwywyd ar gyfer ymgynghori.
- Mae'r Cyngor wedi ceisio gwella gwasanaethau cymorth i ysgolion. Gosodwyd cymorth TGCh ar gontract allanol, ac adolygwyd y gwasanaethau i ysgolion i gefnogi materion staffio, cyllid a chynnal a chadw adeiladau. Hefyd dosbarthwyd holiaduron blynyddol i ysgolion sydd wedi helpu i lunio'r gwasanaethau a gynigir. Nid yw effaith gyffredinol y datblygiadau hyn wedi'i hasesu eto.

3 Y pynciau hyn yw cyfuniad o Gymraeg neu Saesneg iaith gyntaf, mathemateg a gwyddoniaeth. Mae'r dangosydd yn cynnwys plant 7, 11 a 14 oed.

# A yw Cyngor Sir Ddinbych yn helpu i greu lle diogel, ffyniannus a phleserus i fyw?

## Gwybodaeth gefndirol

52 Ym mis Gorffennaf 2010, dywedodd 3.4 y cant, neu 2000 o drigolion o oedran gweithio eu bod yn ddi-waith ac yn hawlio Lwfans Ceisio Gwaith a chredydau Yswiriant Gwladol. Mae hyn ychydig yn is na chyfartaledd Cymru, sef 3.6 y cant. Yn 2009, £532 oedd yr enillion cyfartalog wythnosol yn Sir Ddinbych, a olygai ei bod yn y pumed safle o blith y 22 awdurdod lleol yng Nghymru. Rhwng 1999 a 2009 cynyddodd enillion yn Sir Ddinbych o fod yn llai na chyfartaledd Cymru i fod yn fwy na'r cyfartaledd hwnnw.

53 Yn 2008-09, roedd cyfran y ffyrdd dosbarth 'A' yn Sir Ddinbych a oedd mewn cyflwr gwael yn gymharol debyg i'r gyfran ar gyfer Cymru gyfan a'r sefyllfa yn y flwyddyn flaenorol. Roedd y gyfradd (fesul pen o'r boblogaeth) marwolaethau ac anafiadau difrifol ar y ffyrdd ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru.

54 Mae cyfradd troseddu Sir Ddinbych yn agos i gyfartaledd Cymru. Mae'r gyfradd droseddu wedi lleihau dros y saith mlynedd ddiwethaf, ond mae ffigur eleni yn uwch na ffigur y llynedd. Trais yn erbyn yr unigolyn (26 y cant) a difrod troseddol (23 y cant) yw'r gyfran uchaf o'r troseddau hyn.

## A yw'r Cyngor yn helpu i leihau amddifadedd ac yn adfywio economi Sir Ddinbych mewn modd cynaliadwy?

55 **Mae'r Cyngor yn gwneud rhywfaint o gynnydd o ran ei raglen adfywio heriol a lleihau amddifadedd, ond mae hwn yn gynllun hirdymor sy'n debygol o fod yn fwy anodd oherwydd y sefyllfa ariannol.**

56 Casgliad adroddiad cynharach gan Swyddfa Archwilio Cymru o'r enw *Adfywio yn Sir Ddinbych*, a gyhoeddwyd ym mis Mai 2008, oedd bod gan y Cyngor fframwaith strategol cadarn ar gyfer adfywio, hanes o gynnydd cadarn o ran adfywio ardaloedd o'r Rhyl gydag 8 o'r 10 buddsoddiad allweddol wedi gwneud cynnydd da o ran cyflawni prosiectau Amcan 1[4]. Mae adroddiadau eraill wedi amlygu'r ffaith bod tua 100 o brosiectau adfywio wedi'u cwblhau neu'n mynd rhagddynt o fewn y sir[5]. Ymddengys fod y Cyngor yn parhau i wneud cynnydd mewn llawer o feysydd o'i waith adfywio, er bod rhywfaint o'r gwaith ar gamau cynnar, ac efallai y bydd angen i'r Cyngor wella'r ffordd y mae'n asesu effaith rhywfaint o'r gwaith.

57 Nodwyd adfywio fel blaenoriaeth allweddol gan y Cyngor gan fod problemau sylweddol o ran amddifadedd a chynaliadwyedd economaidd mewn rhai ardaloedd o'r sir. Mae'r Cyngor wedi sefydlu bwrdd prosiect adfywio i arolygu gwaith a nodwyd yn y Cynllun Corfforaethol. Mae'r gwaith hwn wedi'i grwpio o dan dair thema:

- targedu amddifadedd yn y Llain Arfordirol Ogleddol a lleihau dirywiad yr economi wledig;
- lleihau amddifadedd; a
- datblygu economi Sir Ddinbych mewn modd cynaliadwy.

4 Rhaglen grantiau oedd Amcan 1 oedd yn ceisio lleihau gwahaniaethau o ran amodau cymdeithasol ac economaidd o fewn yr Undeb Ewropeaidd.

5 Mae'r adroddiadau hyn yn cynnwys yr Adolygiad o'r Gwasanaeth Adfywio a Thwristiaeth, mis Gorffennaf 2010, ac Adolygiad o'r Cynnydd o ran yr Ardal Adfywio Strategol ac Adroddiad i'r Cabinet ar Raglen y Dyfodol, mis Mehefin 2010.

58 Yn ogystal â'r Cynllun Corfforaethol, mae amryw o strategaethau ar waith i gefnogi gwaith adfywio'r Cyngor, yn cynnwys Strategaeth y Rhyl yn Symud Ymlaen a Sir Ddinbych Wledig - Strategaeth Datblygu Lleol 2007-13. Mae'r Cyngor hefyd yn ymwneud â'r gwaith o gyflawni Cynllun Gweithredu Ardal Adnewyddu Strategol Arfordir Gogledd Cymru, y cytunwyd arno yn 2009-10. Hawliwyd grantiau o £4.2 miliwn ar gyfer prosiectau'r Cyngor yn ystod y flwyddyn. Mae gwaith yn mynd rhagddo i wella'r farchnad dai yn y Rhyl, i ddarparu cyngor gwrth-dlodi a chyngor ar hawliau lles, i ymgysylltu â chymunedau, cefnogi'r broses o ddatblygu sgiliau a helpu i ddatblygu mentrau cymdeithasol a rhoi cymorth iddynt.

## A yw'r rhwydwaith ffyrdd a'r amddiffynfeydd llifogydd yn gwella?

59 **Cynyddodd cyfran y ffyrdd yn Sir Ddinbych sydd mewn cyflwr gwael y llynedd, ac er gwaethaf cynnydd o ran rhai cynlluniau amddiffyn rhag llifogydd, nid yw'r Cyngor yn gallu asesu effeithiolrwydd ei waith i leihau llifogydd.**

60 Nid yw cyflwr y ffyrdd yn gwella yn Sir Ddinbych Noda'r Cyngor mai siomedig fu'r cynnydd o ran gwella ffyrdd yn 2009-10, yn rhannol oherwydd gerwinder y gaeaf. Gwaethygodd cyflwr y priffyrdd mewn ffordd debyg i gyfartaledd Cymru ond gwaethygodd ffyrdd nad ydynt yn briffyrdd yn fwy na'r cyfartaledd.

61 Bu cynnydd o ran gweithredu rhai cynlluniau lliniaru llifogydd. Disgwylir cwblhau gwaith ar Gynllun Llifogydd Dinbych eleni, a disgwylir i Gynllun Llifogydd Gorllewin y Rhyl ddechrau. Ond nid ydym yn gallu asesu p'un a yw'r cynnydd hwn mor fawr ag a fwriadwyd gan y Cyngor, a ph'un a wnaed y gwaith i leihau'r ôl-groniad o waith ar wacau gylïau.

62 Hyd yma, nid yw'r Cyngor wedi cofnodi'r graddau y mae ei waith wedi lleihau'r risg o lifogydd ar gyfer trigolion. Fodd bynnag, mae bellach yn ychwanegu mesur newydd i fonitro nifer yr eiddo sy'n wynebu llai o risg o lifogydd o ganlyniad i'r gwaith a raglennwyd. Gallai'r mesur newydd hwn fod yn ganllaw defnyddiol i fudd y gwaith a wnaed, er nad yw'n nodi sawl eiddo arall sy'n parhau i wynebu'r risg o lifogydd.

63 Mae cynnydd pellach o ran gwella ansawdd ffyrdd ac amddiffynfeydd rhag llifogydd yn dibynnu'n fawr ar argaeledd arian ychwanegol. Byddai'n rhaid i'r Cyngor ystyried yn ofalus sut i ddefnyddio'r arian hwn, a byddai angen iddo wybod yn gliriach beth y mae'n gobeithio ei gyflawni, pwy fydd yn cael budd a sut y cynhelir gwelliannau.

## A yw gweithgarwch arall yn helpu i greu lle diogel, ffyniannus a phleserus i fyw?

64 **Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd ardderchog o ran rheoli gwastraff ac ailgylchu. Mae'n gweithredu cynlluniau ar gyfer gwella gwasanaethau hamdden, ond nid oes ganddo strategaeth gyffredinol ar waith i arwain ei waith ar y gwasanaethau hyn.**

65 Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd ardderchog o ran rheoli gwastraff ac ailgylchu drwy gyflwyno trefniadau casglu cymysg ar gyfer gwastraff ailgylchadwy. Mae'r Cyngor wedi gweithio'n effeithiol gyda thrigolion o ran y newidiadau yn y trefniadau casglu, a gellid defnyddio'r enghraifft hon o ymgysylltu da â chwsmeriaid fel esiampl i'r meysydd gwasanaeth eraill. Yn 2009-10 roedd gan Sir Ddinbych y gyfradd uchaf o wastraff a ailgylchwyd ymhlith y 22 awdurdod lleol yng Nghymru.

66 Mae'r Cyngor yn rhan o Bartneriaeth Trin Gwastraff Gogledd Cymru, sy'n cynnwys cyfanswm o bum cyngor, sydd wedi datblygu cynllun ar gyfer cyfleuster trin gwastraff a rennir. Yn ddiweddar mae Llywodraeth y Cynulliad wedi dyfarnu grant o £142 miliwn tuag at gost y cyfleuster trin gwastraff newydd.

67 Cynhaliwyd adolygiad o ddarpariaeth hamdden y Cyngor yn 2009, a daethom i'r casgliad nad oes gan y Cyngor drefniadau digonol ar waith i gefnogi darpariaeth hamdden gydlynol ac effeithiol yn llawn. Fodd bynnag, dywedodd ein hadroddiad fod y Cyngor wedi datblygu cynigion a fyddai, petaent yn cael eu gweithredu, yn mynd i'r afael â'r diffygion presennol ac yn gwella gwasanaethau ar gyfer y gymuned. Gwnaed nifer o argymhellion yn ein hadroddiad; y cyntaf oedd datblygu strategaeth gydlynol a ategwyd gan gynllun gweithredu clir a fonitrir yn ofalus ac y darperir adnoddau ar ei chyfer. Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd mewn perthynas â llawer o'r argymhellion ond nid yw wedi datblygu a chytuno ar ei strategaeth hyd yma. Mae'n bwriadu gwneud hynny yn 2010-11.

## A yw'r Cyngor yn cyflawni ei amcan o 'wella'r ffordd y mae'n gweithio'?

68 **Mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd o ran gwella'r ffordd y mae'n gweithio yn cynnwys gweithio mewn partneriaeth a datblygu arweinyddiaeth a llywodraethu cryf. Cynllunnir gwaith pellach mewn nifer o feysydd yn cynnwys gwella gwerth am arian a sicrhau gwell dealltwriaeth o anghenion cymunedau lleol.**

69 Mae'r amcan i 'wella'r ffordd y mae'r cyngor yn gweithio' yn dwyn ynghyd y pedair thema gwella yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor ac yn cyfrannu at nod Sir Ddinbych o fod yn gyngor sy'n perfformio'n dda. Y pedair thema hyn yw:

- cael cyngor sydd â diwylliant o berfformio'n dda - rhoi gwerth am arian;
- cael Cyngor sy'n canolbwyntio ar y gymuned a'i phobl;
- cael Cyngor allblyg ei olygon; a
- cael Cyngor sydd â threfniadau llywodraethu ac arwain cryf ar gyfer gwella.

### Perfformio'n dda a gwerth am arian

70 Mae'r Cyngor wedi diffinio'r hyn a olygir gan 'perfformio'n dda', sef gwella perfformiad mewn perthynas â nifer o fesurau allweddol a elwir yn Ddangosyddion Strategol Cenedlaethol. Y targed a nodwyd yng Nghynllun Corfforaethol 2009-12 yw i fod ymhlith hanner uchaf y cynghorau yng Nghymru mewn perthynas â'r Dangosyddion Strategol Cenedlaethol. Mae'r Cyngor wedi nodi grŵp o 23 o ddangosyddion a ddefnyddir i farnu ei hun. Mae'r rhain yn seiliedig ar 19 o'r 26 o Ddangosyddion Strategol Cenedlaethol ar gyfer 2010-11.

71 Yn 2009-10 roedd y Cyngor yn yr hanner uchaf ar gyfer 16 o'r dangosyddion hyn, o gymharu â 13 yn y flwyddyn flaenorol. Roedd perfformiad wedi gwella mewn 13 o'r dangosyddion, parhaodd ar yr un lefel mewn pedwar a gwaethygodd mewn pump. O gymharu â chynghorau eraill yng Nghymru yn erbyn cyfres fwy o fesurau, roedd gan Sir Ddinbych y nifer uchaf o berfformiadau yn y chwarter uchaf a'r nifer isaf o berfformiadau yn y chwarter isaf. Nid yw pob un o'r dangosyddion perfformiad yn mesur ansawdd gwasanaethau neu ganlyniadau ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau a thrigolion ond, ochr yn ochr â gwell adroddiadau gan reoleiddwyr ac ystod o ddatblygiadau eraill, maent yn dangos y cynnydd da a wnaed gan y Cyngor.

72 Fodd bynnag, gallai diffiniad y Cyngor o 'berfformio'n dda' fod yn gamarweiniol lle caiff ei ddefnyddio i ddisgrifio gwasanaeth cyfan ar sail un neu ddau o ddangosyddion perfformiad yn unig. Er enghraifft, dim ond un dangosydd sy'n cyfeirio at wasanaethau tai a digartrefedd. Felly ni ellir ystyried bod y gwasanaethau hyn yn 'perfformio'n dda' ar sail un dangosydd yn unig.

73 Mae nifer o ddatblygiadau yn mynd rhagddynt i helpu i wella effeithlonrwydd a chyflawni gwell gwerth am arian. Mae'r rhain yn cynnwys defnyddio technoleg i leihau gwaith papur, symleiddio gwasanaethau ac adolygu sut y caiff adeiladau a thir eu defnyddio. Nid yw'r ffordd y mae'r Cyngor yn cysylltu ei flaenoriaethau i sut y mae'n defnyddio ei arian (sef Cynllunio Ariannol Tymor Canolig) wedi'i datblygu'n dda, ac mae'r Cyngor yn gweithio i wella hyn. Mae angen i'r Cyngor wella'r defnydd o gostau unedau a meincnodi ei gostau yn erbyn cynghorau eraill hefyd.

## Canolbwyntio ar y gymuned a'i phobl

74 Dylai gwrando ar anghenion y gymuned a sicrhau dealltwriaeth ohonynt helpu'r Cyngor i gynllunio a darparu gwasanaethau priodol. Roedd Datganiad o Fwriad gan y Cyngor yn 2008 yn cynnwys y nod strategol o 'Ddod â'r Cyngor yn Agosach at y Gymuned'. Roedd y Datganiad o Fwriad yn awgrymu y byddai dod yn agosach at y gymuned yn llinyn aur fyddai'n rhedeg drwy ffordd y Cyngor o wneud busnes. Fodd bynnag, er gwaethaf nifer o ddatblygiadau, nid felly y mae hi yn ymarferol.

75 Un o'r ffyrdd y mae'r Cyngor yn mesur p'un a yw'n canolbwyntio mwy ar y gymuned yw drwy ofyn i bobl a ydynt o'r farn bod y Cyngor yn gweithredu mewn ymateb i'w pryderon ac yn eu trin yn deg. Yn 2009, dim ond 46 y cant o drigolion a ymatebodd i arolwg a gytunodd fod y Cyngor yn gweithredu ar bryderon trigolion ac roedd 64 y cant o'r farn bod y Cyngor yn trin pawb yn deg. Fodd bynnag, teimlwn nad yw gwelliant o ran y ffigurau hyn yn unig o reidrwydd yn golygu bod y Cyngor yn 'agosach at y gymuned'. Gall amryw o ffactorau effeithio ar y ffordd y mae pobl yn ymateb, ac nid yw pawb yn cwblhau arolygon o'r fath (er enghraifft, ni chynhwyswyd trigolion o dan 16 oed yn yr arolwg). Gan fod arolygon ond yn cael eu cynnal bob dwy flynedd, bydd yn anodd dehongli'r cynnydd yn y cyfamser. Hefyd nid yw'r Cyngor wedi cyhoeddi unrhyw wybodaeth am y ffordd y bydd canlyniadau'r arolwg yn dylanwadu ar ei waith, sy'n gyfle a gollwyd i ddangos sut y mae'n gwrando ar farn trigolion.

76 Elfen arall o ganolbwyntio ar y gymuned fu datblygu Sir Ddinbych fel sir ddwyieithog. Diwygiwyd Cynllun Iaith Gymraeg y Cyngor yn 2009 ac fe'i cymeradwywyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg[6]. Mae'r Bwrdd wedi canmol Gwasanaeth Hamdden y Cyngor am ei bartneriaeth wrth ariannu swydd gweithiwr ieuenctid newydd gyda'r Urdd (sef sefydliad sydd â'r nod o ddarparu cyfleoedd i blant a phobl ifanc ddysgu a chymdeithasu drwy gyfrwng y Gymraeg). Canmolwyd y Cyngor hefyd am ei waith hyrwyddo a arweiniodd at gynnydd yn nifer y galwadau ffôn uniongyrchol i'r llinell Gymraeg. Canfu Bwrdd yr Iaith Gymraeg fod gwefan, dogfennaeth etholiadol a statudol, a hysbysebion recriwtio'r Cyngor yn cydymffurfio â'r Cynllun Iaith Gymraeg.

6 Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg (y Bwrdd) yn gweithio gydag awdurdodau lleol i'w helpu i ddatblygu eu cynlluniau iaith statudol (CIS) sy'n amlinellu'r ffordd y maent yn darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn Gymraeg.

77 Mae'r camau gweithredu eraill gyda'r nod o ddod â'r Cyngor yn agosach at y gymuned yn cynnwys Arweinydd y Cyngor yn cadeirio ystod o fforymau cymunedol gyda phartneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Lleol. Mae pwyllgorau ardal lleol hefyd yn cael eu datblygu, ond nid yw'r hyn y bwriedir iddynt ei gyflawni yn glir. Byddwn yn ystyried cynnydd y gwaith hwn yn ein hadroddiad nesaf yn 2011. Nid yw'r Cyngor wedi nodi'n glir pwy o blith ei uwch swyddogion sy'n gyfrifol am arwain gwaith i gyflawni'r targed o ddod yn 'agosach at y gymuned.'

## Golygon allblyg, ac yn meddu ar drefniadau llywodraethu ac arweinyddiaeth gref

78 Mae thema'r Cyngor o fod â 'golygon allblyg' yn ymwneud â datblygu ei bartneriaethau a chydweithredu â chynghorau a sefydliadau partner eraill. Ystyriwyd y dull o weithio mewn partneriaeth yn yr Asesiad Corfforaethol Rhagarweiniol. Canfuwyd bod y Cyngor eisoes yn gweithio'n dda mewn partneriaeth ag eraill, ac roedd yn cynllunio cydweithredu pellach. Mae hon yn faes pwysig ar gyfer y dyfodol wrth i bob corff cyhoeddus geisio dod o hyd i ffyrdd mwy effeithlon o ddarparu gwasanaethau gyda'i gilydd. Mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd da tuag at ei nod o roi prosiect rheoli gwastraff mawr ar waith gyda chynghorau eraill. Mae hefyd yn gweithio tuag at wella sgiliau'r gweithlu, cysylltu rhaglenni iechyd â rhaglenni gofal cymdeithasol, a lleihau amddifadedd yn y Rhyl drwy drefniadau darparu lleol â phartneriaid lleol eraill.

79 Canfuwyd hefyd bod arweinyddiaeth dda ar waith a oedd yn arwain newid. Nod y Cyngor yw adolygu ei strwythurau democrataidd a'i strwythurau rheoli i ddarparu gwelliannau pellach i arweinyddiaeth gan swyddogion a chynghorau. Mae eisoes wedi dechrau gweithio ar y datblygiadau hyn ac mae'n gwneud cynnydd da.

# Beth y dylai'r Cyngor ei wneud?

80 O ystyried yr ystod eang o wasanaethau a ddarperir a'r heriau y mae'r Cyngor yn eu hwynebu, byddai'n anarferol pe na bawn wedi dod o hyd i bethau y gellir eu gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol:

- argymell y dylai Gweinidogion Llywodraeth y Cynulliad ymyrryd mewn rhyw ffordd;
- cynnal arolygiad arbennig a chyhoeddi'r adroddiad gan wneud argymhellion manwl;
- gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella - os caiff argymhelliad ffurfiol ei wneud mae'n rhaid i'r Cyngor ymateb yn gyhoeddus i'r argymhelliad hwnnw o fewn 30 diwrnod; a
- gwneud cynigion ar gyfer gwella - os byddwn yn gwneud cynigion i'r Cyngor, byddem yn disgwyl iddo weithredu arnynt a byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar yr hyn sy'n digwydd.

81 Yn sgîl ein gwaith, nid yw'r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud unrhyw argymhellion ffurfiol ond dylai'r Cyngor ystyried ein cynigion canlynol i'w helpu i wella:

**Cynigion a wnaed yn ein gwaith cynharach (yr Asesiad Corfforaethol)**

- dylai'r Cyngor ddatblygu a gweithredu ei gynlluniau i symleiddio'r broses o wneud penderfyniadau a chraffu ymhellach er mwyn sicrhau bod rolau yn glir ac y rhoddir amser i'r materion y rhoddir y pwys mwyaf arnynt;
- dylai'r meini prawf llwyddiant ar gyfer cyflawni'r uchelgais i fod yn Gyngor sy'n perfformio'n dda ac sy'n agosach at y gymuned gael eu mynegi'n gliriach er mwyn gallu asesu lefelau cynnydd;
- dylai arweinwyr y Cyngor wella'r ffordd y maent yn asesu ei werth am arian a sut y caiff hyn ei gyfleu, fel bod gan aelodau etholedig a swyddogion gwell dealltwriaeth o'r cynnydd a wneir wrth wella effeithlonrwydd.

**Cynigion ychwanegol**

- dylai'r Cyngor gynnwys plant a phobl ifanc yn ei waith ymgynghori ac ymgysylltu lle y bo'n briodol;
- dylai'r atebolrwydd a'r gwaith monitro ar gyfer dod yn 'agosach at y gymuned' fod yn fwy eglur;
- dylai'r Cyngor fonitro cynnydd o ran p'un a yw'n gwneud digon i fynd i'r afael ag effaith newid demograffig a sicrhau poblogaeth fwy cytbwys;
- dylai'r Cyngor bennu mesurau canlyniadau cliriach ar gyfer gwella ffyrdd ac amddiffynfeydd rhag llifogydd sy'n dangos sut y bydd trigolion yn cael budd o waith y Cyngor.

# Atodiad 1

## Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r adroddiad hwn

**Yr Archwilydd Cyffredinol**

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth a chaiff ei benodi gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae'n arwain Swyddfa Archwilio Cymru ac mae'n atebol i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru am waith Swyddfa Archwilio Cymru.

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn helpu'r Archwilydd Cyffredinol drwy archwilio gwahanol agweddau ar y ffordd y mae cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn gweithio. Cafodd ei chreu yn 2005 pan unwyd Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru a Chomisiwn Archwilio Cymru.

Yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth y Cynulliad, y cyrff a noddir ganddi a'i chyrff cyhoeddus cysylltiedig; Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) yng Nghymru. Mae hefyd yn penodi archwilwyr allanol cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, gwasanaethau prawf, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned.

Yn ogystal â chyflawni archwiliadau ariannol, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am archwilio sut mae cyrff cyhoeddus yn rheoli ac yn gwario arian cyhoeddus, gan gynnwys sicrhau gwerth am arian wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Gwnaeth y ddeddf a greodd Swyddfa Archwilio Cymru hefyd ehangu pwerau'r Archwilydd Cyffredinol i ddilyn y 'bunt gyhoeddus' i ble bynnag yr aiff.

**Yr adroddiad hwn**

Cyflwynodd Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) gyfrifoldebau newydd i'r Archwilydd Cyffredinol, gan gynnwys cyfrifoldeb i gyhoeddi ei asesiad o drefniadau pob cyngor/awdurdod i sicrhau gwelliant parhaus.

Mae gan awdurdodau gwella ddyletswyddau newydd o dan y Mesur, sy'n cynnwys dyletswydd gyffredinol i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni eu swyddogaethau. Diffinnir awdurdodau gwella fel awdurdodau lleol, parciau cenedlaethol, ac awdurdodau tân ac achub.

Lluniwyd yr adroddiad hwn gan Archwilydd Cyffredinol Cymru i gyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 24 o'r Mesur. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni dyletswyddau o dan adran 19, sef cyhoeddi adroddiad sy'n cadarnhau ei fod wedi cynnal archwiliad o dan adran 17 ac asesiad gwella o dan adran 18.

Prif waith Swyddfa Archwilio Cymru, i alluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau, yw cynnal Asesiad Gwella blynyddol[7].

7 Caiff yr asesiad hwn ei gynnal ar gyfer pob awdurdod gwella, o dan adran 18 o'r Mesur. Mesur. Ar gyfer pob awdurdod, bydd yn penderfynu a yw'r awdurdod yn debygol o gydymffurfio â gofynion Rhan 1 y Mesur. Bydd Swyddfa Archwilio Cymru hefyd yn cynnal archwiliad gwella gwybodaeth a chynllunio, fel sy'n ofynnol o dan adran 17 o'r Mesur, er mwyn nodi a yw'r awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 15(1) i (7).

Caiff yr Asesiad Gwella blynyddol hwn ei lywio gan y canlynol:

- Asesiad Corfforaethol - asesiad sy'n edrych i'r dyfodol o'r tebygolrwydd y bydd awdurdod yn cydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus; ac
- Asesiad o Berfformiad - asesiad ôl-weithredol i nodi a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau arfaethedig er mwyn llunio barn ar hanes yr awdurdod o ran sicrhau gwelliant.

Cyhoeddir allbwn/allbynnau'r asesiadau hyn gan yr Archwilydd Cyffredinol fel Adroddiad(au) Archwilio ac Asesu o dan adran 19 o'r Mesur. Drwy gyhoeddi'r adroddiad hwn o dan adran 19, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn cadarnhau ein bod wedi cynnal archwiliad o dan adran 17 ac asesiad gwella o dan adran 18.

O dan rai amgylchiadau gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal Arolygiadau Arbennig (o dan adran 21), y bydd yn cyflwyno adroddiad i'r awdurdodau a'r Gweinidogion perthnasol mewn perthynas â hwy, ac y gall eu cyhoeddi (o dan adran 22).

Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn crynhoi'r Adroddiadau Archwilio ac Asesu yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol cyhoeddedig hwn (o dan adran 24). Bydd yr adroddiad hwn hefyd yn crynhoi unrhyw adroddiadau ar Arolygiadau Arbennig.

Un o weithgareddau atodol pwysig Swyddfa Archwilio Cymru yw cydgysylltu gwaith asesu a gwaith rheoliadol (sy'n ofynnol o dan adran 23) sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol pob rheoleiddiwr perthnasol mewn awdurdod gwella. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol hefyd yn ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau a bydd yr adroddiad hwn yn crynhoi unrhyw waith a wnaed ganddynt.

Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn nodi'r ffi ar gyfer gwaith archwilio perfformiad a wnaed ganddo i gyflawni ei ddyletswyddau o dan y Mesur ym mhob awdurdod lleol mewn Rhaglen Reoleiddio y cytunir arni bob blwyddyn â'r awdurdod. Ar hyn o bryd, disgwylir i'r ffi ar gyfer mis Tachwedd 2009 hyd at fis Mawrth 2011 fod yn unol â'r swm a nodir yn y Rhaglen Reoleiddio.

# Atodiad 2

## Gwybodaeth ddefnyddiol am Sir Ddinbych a Chyngor Sir Ddinbych

Yn 2008-09 gwariodd y Cyngor £218 miliwn o refeniw, sy'n cyfateb i £2,235 fesul trigolyn, ac yn yr un flwyddyn gwariodd y Cyngor £47 miliwn ar eitemau cyfalaf. Yn 2009-10, y Dreth Gyngor gyfartalog ar gyfer band D ar gyfer Sir Ddinbych oedd £1,201 y flwyddyn; bydd hyn yn cynyddu 2.63 y cant i £1,232 ar gyfer 2010-11 ac mae 75 y cant o dai Sir Ddinbych yn y bandiau treth gyngor A i D.

Ceir 47 o gynghorwyr yn Sir Ddinbych sy'n cynrychioli'r gymuned ac yn gwneud penderfyniadau ynghylch blaenoriaethau a defnyddio adnoddau. Yr arweinydd yw'r Cynghorydd Hugh H Evans. Mae'r Cyngor yn cynnwys Cynghorwyr o'r grwpiau gwleidyddol canlynol:

- 18 o'r Blaid Geidwadol
- 10 Annibynnol
- 8 o Blaid Cymru
- 5 o'r Blaid Lafur
- 3 o'r Blaid Annibyniaeth yn Gyntaf
- 1 o'r Democratiaid Rhyddfrydol yng Nghymru (Annibynnol)
- 2 nad ydynt yn aelodau o unrhyw blaid

Dr Mohammed Mehmet yw Prif Weithredwr Sir Ddinbych ac mae ei dîm rheoli yn cynnwys:

- Cyfarwyddwr Corfforaethol Dysgu Gydol Oes: Hywyn Williams
- Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai: Sally Ellis
- Cyfarwyddwr Corfforaethol yr Amgylchedd: Iwan Prys Jones
- Cyfarwyddwr Corfforaethol Effeithlonrwydd a Llywodraethu: Bethan Jones

I gael rhagor o wybodaeth ewch i wefan y Cyngor ei hun yn www.sirddinbych.gov.uk neu cysylltwch â'r Cyngor yn Cyngor Sir Ddinbych, Neuadd y Sir, Ffordd Wynnstay, Rhuthun LL15 1YN.

Aelodau'r Cynulliad dros Sir Ddinbych yw:

- Ann Jones, Dyffryn Clwyd, y Blaid Lafur
- Darren Millar, Gorllewin Clwyd, y Blaid Geidwadol
- Karen Sinclair, De Clwyd, y Blaid Lafur

Yr Aelodau Seneddol dros Sir Ddinbych yw:

- Chris Ruane, Dyffryn Clwyd, y Blaid Lafur
- David Jones, Gorllewin Clwyd, y Blaid Geidwadol
- Susan Elan Jones, De Clwyd, y Blaid Lafur

# Atodiad 3

## Asesiad Corfforaethol yr Archwilydd Cyffredinol

Nodir isod brif gasgliadau Asesiad Corfforaethol yr Archwilydd Cyffredinol, a gyflwynwyd i'r Cyngor ym mis Gorffennaf 2010.

**Casgliad cyffredinol**

Mae arweinyddiaeth dda yn ysgogi newid, sy'n golygu bod Cyngor Sir Ddinbych mewn sefyllfa dda i gyflawni gwell canlyniadau er gwaethaf gwendidau presennol mewn rhai trefniadau.

**Sut mae'r Cyngor wedi mynd ati i sicrhau gwelliant dros amser**

Mae'r Cyngor wedi adfer ei hun ar ôl cyfnod anodd ac mae ganddo amcanion cliriach a threfniadau sy'n gwella a all arwain at ganlyniadau gwell:

- Cyn 2008, profodd y Cyngor gyfnod anodd lle gwelwyd arweinyddiaeth aneffeithiol ac roedd rhai gwasanaethau yn anfoddhaol;
- ers hynny, mae arweinyddiaeth wleidyddol fwy sefydlog a threfniadau rheoli newydd wedi pennu amcanion cliriach ac maent yn creu diwylliant o uchelgais ac agwedd agored i newid; ac
- mae'r Cyngor yn cydnabod ei fod yn wynebu heriau mawr ond mae'r trefniadau gwell yn rhoi sail dros fod yn obeithiol y gall droi ei gynlluniau yn ganlyniadau cadarnhaol.

**Dadansoddi trefniadau'r Cyngor i'w helpu i wella**

Mae arweinyddiaeth dda yn arwain newid gyda llywodraethu, polisi a strategaeth, gwaith partneriaeth a phrosesau busnes yn cefnogi gwelliant yn gadarnhaol, er nad oes trefniadau cwbl effeithiol ar gyfer gwneud y defnydd gorau o staff ac adnoddau ar waith eto:

- Mae trefniadau'r Cyngor yn dangos cryfderau arbennig mewn perthynas ag arweinyddiaeth. Mae trefniadau llywodraethu yn gymharol effeithiol erbyn hyn er bod cynlluniau i sicrhau cynnydd pellach.
- Mae'r Cyngor eisoes yn gweithio drwy bartneriaethau i gyflawni gwelliant ac mae'n bwriadu datblygu hyn ymhellach.
- Bydd y fframwaith polisi a strategaeth yn ategu gwelliant yn gadarnhaol.
- Mae prosesau busnes yn ategu gwelliant ar y cyfan ond nid yw effeithiolrwydd newidiadau diweddar yn glir eto.
- Mae gwendidau o ran y trefniadau presennol ar gyfer gwneud y defnydd gorau o staff, er y caiff y rhain eu cydnabod ac mae camau gweithredu yn cael eu cynllunio.
- Mae'r dull rheoli ariannol yn gadarn ar y cyfan ond nid yw'r broses cynllunio ariannol yn y tymor canolig wedi'i datblygu'r ddigonol ac megis dechrau mae'r dasg o foderneiddio sylfaen asedau'r Cyngor.

I weld yr adroddiad llawn, ewch i'n gwefan yn www.wao.gov.uk.

# Atodiad 4

## Llythyr Blynyddol yr Archwilydd Penodedig at Aelodau Cyngor Sir Ddinbych

**Cydymffurfiodd Cyngor Sir Ddinbych â'r gofynion o ran adrodd ar faterion ariannol a gwella perfformiad**

Cyfrifoldeb y Cyngor yw:

- rhoi systemau rheolaeth fewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir;
- paratoi Datganiad Cyfrifon yn unol â gofynion perthnasol;
- sefydlu ac adolygu'n barhaus drefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau; a
- chyhoeddi ei Gynllun Gwella erbyn 31 Hydref.

Mae'r Cod Ymarfer Archwilio (y Cod) a gyhoeddwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- roi barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau;
- ystyried a yw'r Cynllun Gwella wedi'i baratoi a'i gyhoeddi yn unol â gofynion statudol; a
- rhoi tystysgrif yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau'r broses o archwilio'r cyfrifon.

Ar 30 Medi 2010 rhoddais farn archwilio ddiamod ar y datganiadau cyfrifyddu, gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o drafodion ariannol y Cyngor.

Roedd fy nghanfyddiadau allweddol fel a ganlyn:

- ni nodwyd unrhyw wendidau perthnasol yn y systemau cyfrifyddu a rheolaeth fewnol;
- cywirwyd gwall perthnasol o £21 miliwn a oedd yn ymwneud â gorddatgan gwerthoedd asedau;
- ni chododd unrhyw bryderon sylweddol o ran agweddau ansoddol ar eich arferion cyfrifyddu a'ch proses o gyflwyno adroddiadau ariannol; a
- pharatowyd ffurflen Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan yn effeithiol ac yn unol ag amserlen y Cynulliad.

Cyflwynais adroddiad ar y materion allweddol a ddeilliodd o'm harchwiliad o’r datganiad cyfrifon i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ar 27 Medi 2010.

Mae fy adolygiad o drefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn seiliedig ar y gwaith archwilio a wnaed ar y cyfrifon ac yn dibynnu ar y gwaith a gwblhawyd fel rhan o'r Mesur. Caiff prif ganfyddiadau'r gwaith hwn eu nodi yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol.

Mae Cynllun Gwella'r Cyngor ar gyfer 2010-11 yn bodloni'r gofynion statudol ac yn cynnwys adroddiad ar ei berfformiad yn 2009-10. Caiff awgrymiadau ar gyfer gwelliannau pellach eu nodi yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol.

Rwyf wedi cwblhau'r archwiliad o ddatganiad cyfrifon y Cyngor yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'r Cod Ymarfer a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Fodd bynnag, ni allaf gwblhau'r archwiliad yn ffurfiol na chyhoeddi tystysgrif hyd nes y byddaf wedi gallu ystyried yn llawn y materion a ddygwyd at fy sylw gan aelodau o'r cyhoedd.

Ar hyn o bryd, disgwylir i'r ffi archwilio ariannol ar gyfer 2009-10 fod yn unol â'r swm a nodir yn y Strategaeth Archwilio Ariannol.

Ann-Marie Harkin
Dros ac ar ran yr Archwilydd Penodedig
30 Tachwedd 2010

# Atodiad 5

## Amcanion a chynlluniau gwella Cyngor Sir Ddinbych

### Amcanion y Cyngor

Cyhoeddodd y Cyngor ei Gynllun Amcanion Gwella sydd ar gael ar wefan y Cyngor yn www.denbighshire.gov.uk. Mae'r amcanion fel a ganlyn:

- addasu darparu gwasanaethau i fynd i'r afael â newid demograffig;
- lleihau amddifadedd a thyfu economi Sir Ddinbych yn gynaliadwy drwy dargedu adnoddau yn strategol;
- moderneiddio'r gwasanaeth addysg i gyflawni lefel uchel o berfformiad ar draws y sir;
- sicrhau rhwydwaith ffyrdd ac amddiffynfeydd llifogydd cynaliadwy; a
- gwella'r ffordd y mae'r Cyngor yn gweithio.

### Sut y datblygwyd yr amcanion a'r cynlluniau

O dan y Mesur mae'n ofynnol i awdurdodau lleol gytuno ar amcanion gwella a'u cyhoeddi. Dylid cyhoeddi'r amcanion gwella ar gyfer y flwyddyn cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ddechrau mis Ebrill bob blwyddyn. Yn Sir Ddinbych cafodd y blaenoriaethau a'r themâu eu datblygu a'u cynnwys yn y Cynllun Corfforaethol tair blynedd ar gyfer 2009-12 a'u cyhoeddu yn 2009, ond ni chyfeiriodd y Cyngor yn ffurfiol at y rhain fel amcanion gwella. Ers hynny mae wedi penderfynu cyfuno'r pedair 'thema gwella' o dan y teitl 'Gwella'r Ffordd y mae'r Cyngor yn Gweithio', a bellach hwn ynghyd â'r pedair blaenoriaeth gorfforaethol yw ei bum amcan gwella. Cyhoeddwyd hyn ar wefan y Cyngor ar 1 Hydref 2010. Mae hefyd wedi cynllunio cynllun sy'n cwmpasu ail flwyddyn y cyfnod. Enw'r cynllun hwn yw *Cyflawni'r Cynllun Corfforaethol 2010-11*.

Er bod y Cyngor wedi dosbarthu ei Gynllun Corfforaethol ar gyfer 2009-12 i gynghorau cymuned a phartneriaid, ac wedi ymgynghori'n flaenorol gydag aelodau eraill y Bwrdd Gwasanaethau Lleol[8] ar ei flaenoriaethau, prin yw'r gwaith a wnaed ganddo i hysbysu trigolion o'i flaenoriaethau. Er enghraifft, nid yw wedi defnyddio'r cylchlythyr Llais y Sir, a ddosberthir i bob un o'r 44,000 o gartrefi yn y sir. Ers hynny mae wedi cynnal sioe deithiol ar gyfer staff a bu'n ymwneud â fforymau cymunedol i drafod anghenion lleol a blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol. Dylai'r Cyngor barhau i ddatblygu gwaith i holi barn pobl leol ar ei amcanion gwella a'u cyhoeddi'n gynt ac yn fwy effeithiol yn y blynyddoedd i ddod.

Er mwyn sicrhau bod i gynlluniau gwella'r Cyngor ffocws digonol, archwiliwyd a yw'r Cyngor yn gwybod yn glir sut y bydd pobl ar eu hennill os bydd yn gwella yn y modd y mae'n bwriadu ei wneud. Mae'r amcanion gwella yn weddol glir felly dylai fod yn bosibl i'r Cyngor fesur p'un a yw yn eu cyflawni ai peidio. Fodd bynnag, ar gyfer rhai o'r amcanion bydd yn anos mesur p'un a yw pobl yn cael budd ohonynt mewn gwirionedd. Mae'r Cyngor wedi cydnabod hyn ac mae'n cynnig rhai newidiadau i'r ffordd y byddant yn gwerthuso cynnydd. Er enghraifft, mae'n cynnig ychwanegu mesur newydd at ei amcan ynglŷn â gwella amddiffynfeydd llifogydd i asesu nifer yr eiddo sy'n

8 Byrddau Gwasanaethau Lleol yw'r arweinwyr sector cyhoeddus a sector gwirfoddol o fewn pob sir sy'n cydweithio i wella'r sir a'i gwasanaethau er lles ei drigolion, ymwelwyr a busnesau.

wynebu llai o berygl o lifogydd o ganlyniad i'r gwaith arfaethedig. Fodd bynnag, oni bai ei fod yn dangos cyfran yr eiddo sy'n wynebu perygl, ni fydd y mesur hwn yn dangos y graddau y bu lleihad yn y perygl cyffredinol o lifogydd. Mae angen i'r Cyngor wneud mwy o waith i wella'r mesurau hyn.

Mae'r ddogfen *Cyflawni Cynllun Corfforaethol 2010-11* wedi'i hysgrifennu'n dda ar y cyfan ac mae'n nodi'n glir yr amcanion a bennwyd gan y Cyngor a'r camau y mae'n bwriadu eu cymryd. Yn unol â bwriad y Cyngor i ddod yn 'agosach at y gymuned' mae'r cynllun yn crynhoi'r camau gweithredu a gymerir o dan bob un o'r pedair blaenoriaeth gorfforaethol ym mhob un o chwe Ardal Gymunedol y Sir. Mae'r cynllun yn cynnwys crynodeb o'r wybodaeth ariannol sy'n cynnwys rhestr fer o feysydd ar gyfer arbedion, ond nid yw'n dangos sut y mae'r Cyngor yn newid yr arian a ddyrennir ganddo i'w helpu i gynnal y gwaith i gyflawni ei flaenoriaethau.

Roedd adroddiad yr ymchwiliad a gynhaliwyd yn dilyn marwolaeth Victoria Climbié yn Lloegr yn argymell y dylai prif weithredwyr ac aelodau arweiniol awdurdodau lleol sydd â chyfrifoldebau am wasanaethau cymdeithasol sicrhau bod gwasanaethau plant yn cael eu cynnwys yn benodol yn rhestr eu hawdurdod o flaenoriaethau a'i gynlluniau gweithredol[9]. Ond  nid yw *Cyflawni Cynllun Corfforaethol 2010-11* yn cynnwys diogelu plant na gwasanaethau cymdeithasol ar gyfer plant, nac yn cyfeirio atynt. Nododd *Adroddiad Asesiad Perfformiad Blynyddol* AGGCC ar gyfer 2009-10 y gwelwyd bod cymorth corfforaethol ac ymwneud gan aelodau arweiniol yn gadarnhaol ym maes diogelu plant ac oedolion. Fodd bynnag, bydd y Cyngor am sicrhau, wrth ganolbwyntio ar y blaenoriaethau corfforaethol, nad yw'n diystyru ei gyfrifoldebau o ran diogelu plant.

Gwnaethom hefyd asesu trefniadau'r Cyngor ar gyfer cynllunio gwelliannau a darparu adnoddau ar eu cyfer. Canfuwyd gennym nad yw'r Cyngor bob amser yn gwneud cystal o ran sicrhau bod cynlluniau a blaenoriaethau gwasanaethau gwahanol wedi'u cysylltu'n gydlynol. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn mynd i'r afael â hyn drwy system cynllunio busnes newydd a chanllawiau newydd ynglŷn â sut i sicrhau bod cynlluniau a pholisïau gwahanol yn cydgysylltu â'i gilydd. Byddwn yn asesu p'un a yw'r trefniadau newydd yn effeithiol yn ein hadroddiad nesaf. Roedd Cynllun Corfforaethol 2009-12 yn cynnwys gwybodaeth gychwynnol ynglŷn â sut y byddai'r blaenoriaethau'n cael eu hariannu ond ceir llai o wybodaeth mewn dogfennau mwy diweddar. Bydd y Cyngor yn adolygu ei gynlluniau i adlewyrchu'r sefyllfa ariannol anos fel rhan o'i raglen effeithlonrwydd ac ar ôl ymgynghori â phartneriaid a'r cyhoedd.

Mae angen i bob Cyngor gael gwybodaeth dda a'i defnyddio'n dda er mwyn iddo ddarparu gwasanaethau da a'u gwella ymhellach. Canfuwyd gennym fod yr awdurdod wedi rhoi systemau digonol ar waith i gynhyrchu cyfres o fesurau perfformiad allweddol a elwir yn Ddangosyddion Strategol Cenedlaethol (er y ceir un dangosydd lle nad oedd y Cyngor yn gallu dilyn y canllawiau).

Ar y cyfan, mae Cynllun Corfforaethol y Cyngor 2009-12, y ddogfen *Cyflawni Cynllun Corfforaethol 2010-11*, y papur *Fframwaith Perfformiad ar gyfer Amcanion Gwella Cyngor Sir Ddinbych 2010-11* a'r *Cynllun Gwella Perfformiad Blynyddol* yn bodloni'r gofynion statudol ar gyfer cynlluniau ac amcanion gwella. Fodd bynnag, er mwyn cydymffurfio'n llawn â'r canllawiau cyhoeddedig, dylai'r Cyngor fod yn gliriach o ran y trefniadau ymgynghori a pham y dewiswyd blaenoriaethau penodol. Dylai hefyd fynd i'r afael â bylchau a nodwyd yn erbyn yr amcanion penodol lle nad yw'r canlyniadau'n glir, yn gadarn nac yn fesuradwy.

9 Adroddiad Ymchwiliad Victoria Climbie gan yr Arglwydd Laming, tud 394, Ionawr 2003

## Amcanion penodol

**Newid demograffig**

Mae Cynllun Corfforaethol 2009-12 yn nodi bod gan Sir Ddinbych boblogaeth gynyddol o bobl hŷn a bod gan y sir ystod gyfyngedig o wasanaethau ar gael ar gyfer y bobl hyn. Mae poblogaeth Sir Ddinbych yn tyfu tua mil o bobl (un y cant) bob blwyddyn. Penderfynodd y Cyngor y dylai fynd i'r afael â'r newid demograffig hwn drwy gyflawni poblogaeth fwy cytbwys fod yn un o'i brif flaenoriaethau. Nod y cynllun yw cadw a denu pobl ifanc drwy ysgolion, cyfleoedd hyfforddiant, swyddi, tai a chyfleoedd busnes o safon uchel. I ddechrau mae'r Cyngor wedi canolbwyntio ei flaenoriaeth o ran 'newid demograffig' ar fynd i'r afael ag effaith pobl sy'n byw'n fwy hir a'r nifer cynyddol o bobl sydd ag anableddau cymhleth ac anableddau dysgu. Gall gwaith mewn meysydd eraill, yn cynnwys addysg ac adfywio a gwaith gan sefydliadau partner, gyfrannu at yr agenda ehangach i sicrhau poblogaeth fwy cytbwys, ond ni chaiff effaith hyn ei chydgysylltu mewn ffordd glir.

Mae'r Cynllun Corfforaethol a chynlluniau dilynol yn nodi'n glir fod y Cyngor yn bwriadu cynnig mwy o annibyniaeth a dewis ar gyfer pobl hŷn a'r sawl sydd ag anableddau dysgu a gwella lles cymunedol. Nodir camau gweithredu a mesurau sy'n ymwneud â'r meysydd hyn, ond ar eu pen eu hunain ni fydd y rhain yn dangos p'un a oes gan bobl fwy o ddewis ac ansawdd annibyniaeth mewn gwirionedd na ph'un a yw'r costau ar gyfer y sawl sydd ag anableddau dysgu wedi'u rheoli.

**Moderneiddio Addysg**

Ceir tair ffrwd waith i'r amcan 'Moderneiddio Addysg', sef: gwella safonau mewn ysgolion gan hyrwyddo cynhwysiant; moderneiddio ysgolion; monitro a gwerthuso gwasanaethau cymorth i ysgolion. Mae Bwrdd Prosiect Moderneiddio Addysg, sy'n goruchwylio'r gwaith, yn cynnwys cynrychiolwyr o blith y cynghorwyr, uwch swyddogion a phenaethiaid ysgolion.

Mae mesurau llwyddiant y Cyngor yn canolbwyntio ar y ffrwd waith gyntaf o wella safonau mewn ysgolion ac maent oll yn ymwneud â chyrhaeddiad disgyblion. Er gwaethaf llawer o ddatblygiadau, mae adroddiadau perfformiad yn llai clir o ran p'un a wneir cynnydd o ran y ffrydiau gwaith eraill o foderneiddio ysgolion neu wella gwasanaethau cymorth. Ar gyfer 2010-11, mae'r Cyngor yn bwriadu defnyddio mesurau boddhad ychwanegol i fesur cynnydd. Gwneir hyn drwy ddefnyddio gwybodaeth o arolwg trigolion 2009. Mae'r mesurau newydd hyn yn ymwneud â boddhad ag addysg gynradd ac addysg uwchradd a chynnydd ers adroddiad Estyn yn 2007. Bydd y canlyniadau'n dangos i'r Cyngor beth yw barn y bobl sy'n hŷn na 16 oed a gymerodd ran yn yr arolwg. Ond ni fydd y wybodaeth hon yn cyfleu barn pawb i'r Cyngor, ac nid yw'n cyfleu barn pobl sy'n iau na 16 oed. Efallai bod y lefelau boddhad yn is na'r disgwyl ar hyn o bryd oherwydd cynlluniau moderneiddio ysgolion sy'n ymwneud â chau ac uno ysgolion.

Yr elfen arall o'r ffrwd waith gyntaf yw 'hyrwyddo cynhwysiant'. Yn ystod 2009-10 paratowyd Cynllun Addysg Gymraeg drafft gan y Cyngor a gymeradwywyd ar gyfer ymgynghori. Nid yw'n glir beth yw'r amcanion eraill ar gyfer hybu cynhwysiant.

Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd o ran yr ail ffrwd waith ac ad-drefnu a moderneiddio ysgolion. Fodd bynnag, nid yw'n glir sut y mae'r cynnydd hwn yn cymharu â'r hyn a fwriedir neu'r hyn sydd ei angen. Yn yr un modd, cafwyd amryw o ddatblygiadau mewn perthynas â'r drydedd ffrwd waith sy'n ymwneud â gwasanaethau cymorth, ond nid yw'n glir sut y caiff cynnydd ei fonitro.

**Adfywio**

Mae'r Cyngor wedi nodi adfywio fel blaenoriaeth allweddol ac iddi dair thema:

- targedu amddifadedd yn y Llain Arfordirol Ogleddol a lleihau dirywiad yr economi wledig;
- lleihau amddifadedd; a
- datblygu economi Sir Ddinbych mewn modd cynaliadwy.

Yn ogystal â'r Cynllun Corfforaethol, mae amryw o strategaethau ar waith i gefnogi gwaith adfywio'r Cyngor, yn cynnwys Strategaeth y Rhyl yn Symud Ymlaen a Sir Ddinbych Wledig -Strategaeth Datblygu Lleol 2007-13.

Fodd bynnag, ceir rhai gwendidau yn y ffordd y mae'r Cyngor yn gwerthuso cynnydd ei waith adfywio, yn cynnwys:

- Mesurir cynnydd mewn perthynas â'r tair thema yn y Cynllun Corfforaethol ar sail gwybodaeth gyfyngedig. Mae angen i'r Cyngor ystyried mwy o fesurau a thargedau o ran lefel y boblogaeth, yn cynnwys y rheini sy'n ymwneud ag ardaloedd o amddifadedd a thai, er mwyn barnu effaith ei waith.
- Nid yw'r Cyngor wedi diffinio man cychwyn ar gyfer rhai o'r mesurau adfywio yn y Cynllun Corfforaethol er mwyn ei ddefnyddio i fesur gwelliant.
- Mae rhywfaint o'r wybodaeth a ddefnyddir yn yr adroddiadau perfformiad yn wallus, ac mae'n rhoi darlun dryslyd o gynnydd a gwelliant.

**Gwella ffyrdd ac amddiffynfeydd rhag llifogydd**

Mae pedwaredd flaenoriaeth gorfforaethol y Cyngor, sef sicrhau rhwydwaith ffyrdd ac amddiffynfeydd rhag llifogydd cynaliadwy, yn briodol gan ei fod yn deillio o ddirywiad yng nghyflwr y priffyrdd a rhai achosion difrifol o lifogydd. Wedi dweud hynny, rydym o'r farn nad yw sail resymegol y Cyngor ar gyfer dewis hwn fel blaenoriaeth wedi'i nodi'n glir. Noda *Cynllun Gwella 2009-12* y cafwyd llawer o gwynion am gyflwr y ffyrdd a bod cynghorwyr wedi cael cryn dipyn o adborth ar y mater. Fodd bynnag, noda *Adolygiad Perfformiad Blynyddol drafft 2009-10* fod lefel gymharol uchel o foddhad cyffredinol â'r rhwydwaith ffyrdd'. Mae'r negeseuon cymysg hyn yn achosi dryswch, ac yn ei gwneud yn anodd i drigolion ddeall y materion.

Y nod yw cyflawni gwelliant cyffredinol yng nghyflwr y seilwaith, llai o ôl-groniadau o waith cynnal a chadw a llai o gwynion. Mae'r gwaith yn canolbwyntio ar faterion gweithredol ac mae'r mesurau o gynnydd yn edrych ar gynlluniau a ddechreuwyd a thriniaethau a chyfran y ffyrdd sydd mewn cyflwr gwael. Fodd bynnag, nid oes unrhyw dargedau na mesurau ar gyfer y lleihad cyffredinol yn y risg o lifogydd, lefelau ôl-groniadau neu hyd yn oed cwynion. O 2010-11, mae mesurau boddhad wedi'u cynnwys gyda'r lefelau llinell sylfaen o arolwg trigolion 2009. Ni cheir unrhyw linellau sylfaen na mesurau ar gyfer gwaith amddiffyn rhag llifogydd. Ni cheir cyswllt eglur â'r sawl a ddylai gael budd o'r gwaith i wella'r ffyrdd - busnesau neu gymunedau penodol? Roedd y gyfradd (fesul pen o'r boblogaeth) o achosion o bobl yn cael eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol ar y ffyrdd ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru, ond nid yw'n glir p'un a yw'r Cyngor yn ceisio lleihau nifer y damweiniau, ac nid oes unrhyw gyfeiriadau at anafiadau, hawliadau yswiriant, cwynion na phroblemau mewn trefi neu bentrefi penodol. Felly nid yw'n glir beth yn benodol y mae'r Cyngor yn bwriadu ei gyflawni.

# Atodiad 6

## Cyfeiriadau

Daw’r holl ddata y cyfeirir ato yn yr adroddiad o’r ffynonellau canlynol:

- Llywodraeth Cynulliad Cymru, StatsCymru
- Llywodraeth Cynulliad Cymru, ystadegau crynhoi ardaloedd lleol
- Gwefannau a Chynlluniau Gwella'r Awdurdod Gwella ei hun
- The Wales Yearbook
- Y Swyddfa Gartref
- Gwasanaeth Ymchwil Aelodau
- Swyddfa Ystadegau Gwladol